# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0876(SJR) a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**At Helen Mary Jones:**

Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 4 Hydref, ymgymerais i ystyried y materion a grybwylloch mewn perthynas â thlodi plant ymhellach.

Byddaf yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf ar gynllun gweithredu fy Nirprwy Weinidog ar dlodi plant i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yfory. Fel y gwyddoch, mae'r cynllun yn cynnwys ystod o gynigion polisi cyffredinol a thrawsbynciol ac arbenigol sydd yn y broses o gael eu gweithredu eleni.

Mae'r cynnig polisi cyffredinol cyntaf i gael ei gynnwys yn y cynllun yn argymell bod pob menter newydd gan Lywodraeth y Cynulliad a'i ymrwymiadau gwariant newydd yn cael eu prawfesur o ran tlodi plant. Cytunwyd adolygu'r offeryn porth i bolisïau sydd eisoes yn bodoli—fe'i defnyddir gan swyddogion i sicrhau bod polisïau yn cael eu datblygu a'u dwyn i ben fel eu bod yn cyfarfod agenda strategol Llywodraeth y Cynulliad a'i ymrwymiadau i ddatblygu cynaliadwy, cyfle cyfartal a chyfiawnder cymdeithasol—er mwyn delio ag amddifadedd a thlodi plant. Mae un o'r cwestiynau yn awr yn cyfeirio at effaith y polisi ar gymunedau amddifaid a'r llall ar gael gwared ar dlodi, yn arbennig o ran plant a'u teuluoedd. Mae hyn yn tynnu sylw at fwy na thlodi plant, ond mae hefyd yn cyfeirio at y ffaith nad yw pob person amddifad yn rhan o gymuned amddifad. Bydd gwybodaeth am yr hyn y gellir ei wneud i gael gwared ar dlodi plant yn cael ei gynnwys yn yr arweiniad cyffredinol yn y porth i bolisïau er mwyn hybu ymwybyddiaeth o'r materion sydd yn ymwneud â thlodi plant a beth y mae angen i swyddogion ei wneud i sicrhau bod eu polisïau yn mynd i'r afael â'r mater yn well.

Adolygir y broses porth i bolisïau a'r offeryn ei hun yn gynnar yn nhrydydd tymor Llywodraeth y Cynulliad. Mae swyddogion wedi pwysleisio y dylai dylanwad polisïau newydd ar dlodi plant fod yn agwedd amlwg mewn unrhyw offeryn newydd ac yn yr arweiniad sydd yn dod ynghyd ag ef a fabwysiedir gan Lywodraeth y Cynulliad.

O ran adnoddau, aethpwyd ati yn fy mhortffolio i leoli gwariant ar wasanaethau a mentrau plant. Bydd hyn yn hysbysu'r gwaith sydd yn cael ei ddwyn ymlaen ledled Llywodraeth y Cynulliad a bydd yn destun papur fydd yn cael ei gyflwyno i is-bwyllgor y Cabinet ar blant a phobl ifanc cyn bo hir.

Yn olaf, ac fel rhan o'r gwaith ar ei gynllun, cwblhaodd fy Nirprwy Weinidog waith pellach yn ddiweddar o ran cytuno ar gyfres o gerrig milltir a thargedau trawsbynciol a gaiff eu mabwysiadu i fesur cynnydd Llywodraeth y Cynulliad yn cael gwared ar dlodi plant erbyn 2020. Lansir y papur hwnnw ar ddydd Llun 23 Hydref yn y Senedd.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0830(SJR) a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**At Lisa Francis:**

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cwestiwn, a godwyd yng nghwestiynau'r Cynulliad ar 4 Hydref, am y trafodaethau gyda gwneuthurwyr adnewyddadwy yng Nghymru.

Nid wyf i na'm swyddogion wedi cynnal unrhyw drafodaethau diweddar gyda gwneuthurwyr adnewyddadwy yng Nghymru er bod cwmnïau Cymreig wedi bod yn rhan o gynlluniau i hyrwyddo sefydlu mesurau adnewyddadwy

Yn ddiweddar, cyhoeddais fy mod yn bwriadu comisiynu cyfres o gynlluniau peilot ymarferol i werthuso costau, buddion a'r cyfraniad posib i fynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy ddefnyddio ynni adnewyddadwy a datrysiadau amgen sydd yn addas ar gyfer cartrefi, gyda phwyslais arbennig ar gartrefi y mae'n anodd eu cynhesu. Bydd trafodaethau yn cael eu cynnal gan wneuthurwyr a gosodwyr ynni adnewyddadwy Cymreig yn ystod datblygiad y cynllun peilot hwn.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0844(SJR) a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**

**At Jenny Randerson:**

Mewn cwestiynau atodol yng Nghyfarfod Llawn 4 Hydref 2006, bu ichi godi'r mater o ddiffyg adnoddau ar gyfer y gwasanaeth dadwenwyno yng ngharchar Caerdydd. Cyfeiriasoch at dystiolaeth nad oedd cyn-garcharorion gyda phroblem camddefnyddio sylweddau yn derbyn parhad mewn gofal. Yr wyf yn gobeithio y byddwch yn derbyn fy ymddiheuriadau am yr oedi wrth ymateb: gofynnais i'm swyddogion gysylltu â'r gwasanaeth carchardai i wirio'r ffeithiau.

Mae rhaglen dadwenwyno carchar Caerdydd ar gyfer unrhyw un sydd yn cyflwyno'i hun i'r meddyg. Bydd mynediad yn seiliedig wedyn ar asesiad a barn glinigol. Nid oes rhestr aros ac nid oes dogni ar gyfer triniaeth dadwenwyno, sefydlogi neu gynhaliaeth. Mae gan Gaerdydd darged perfformiad allweddol o 900 lle dadwenwyno'r flwyddyn. Rhwng 1 Ebrill a 12 Rhagfyr, derbyniodd 550 unigolyn driniaeth.

Yn ogystal, bu i chi sôn am y rhaglen gwirfoddoli sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth dadwenwyno. Mae hon yn rhaglen wedi'i achredu â'r bwriad o gynorthwyo carcharorion i archwilio eu troseddu a'u hymddygiad mewn perthynas â'u camddefnydd o sylweddau ac mae'n cynnwys therapi i'w cymell a chwnsela strwythuredig. Mae'r rhaglen yn cael ei hariannu gan y Swyddfa Gartref ac fe'm hysbysir nad oes rhestrau aros ar ei chyfer.

Yn olaf, bu i chi godi'r mater o barhad gofal yn dilyn rhyddhad o'r carchar. Cynlluniwyd y rhaglen ymyriadau er mwyn cynnig cymorth i unigolion sydd â phroblemau cyffuriau pan ydynt yn cael eu rhyddhau o garchar a mynediad yn syth i wasanaethau triniaeth lle bo angen. Cynigir cymorth gyda thai a materion eraill hefyd yn rhan o'r rhaglen. Rhaglen wirfoddol yw hon, ond ers i'r cynllun ddechrau yn Ebrill, mae 123 unigolyn sydd wedi ei ryddhau o garchar Caerdydd wedi cael eu cyfeirio ato. Mae troseddwyr gyda dedfrydau o lai na 12 mis hefyd yn cael y cynnig i dderbyn cefnogaeth mentora wrth y cynllun cymorth trosiannol sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae manylion am y rhaglen ymyriadau cyffuriau a'r cynllun cymorth trosiannol wedi eu cynnwys yn fy mhedwerydd adroddiad blynyddol ar gam-drin sylweddau, a gyflwynais i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ym mis Medi.